# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

Dydd Mawrth, 6 Mawrth 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
G. Davies and T.A.J. Davies

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth
K. Morris, Cyfreithiwr Cynorthwyol
L. McFarlane, Swyddog Polisi a Datblygu Teithio Dysgwyr
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Committee Room 2, 3 Spilman Street, Carmarthen - 3 Spilman Street, Carmarthen - 2.00 - 2.15 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd dim buddiannau personol yn y cyfarfod.

## 3. LLOFNODI YN CYFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFODYDD A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-

### 3.1. 24AIN TACHWEDD 2017 (10.00 A.M.);

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2017, gan eu bod yn gywir.**

### 3.2. 24AIN TACHWEDD 2017 (10.20 A.M.);

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2017, gan eu bod yn gywir.**

### 3.3. 24AIN TACHWEDD 2017 (10.40 A.M.);

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2017, gan eu bod yn gywir.**

### 3.4. 24AIN TACHWEDD 2017 (11.00 A.M.);

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2017, gan eu bod yn gywir.**

### 3.5. 24AIN TACHWEDD 2017 (11.40 A.M.);

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2017, gan eu bod yn gywir.**

**3.6. 24AIN TACHWEDD 2017 (12.20 P.M.);**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2017, gan eu bod yn gywir.**

**3.7. 24AIN TACHWEDD 2017 (12.40 P.M.);**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2017, gan eu bod yn gywir.**

**3.8. 18FED RHAGFYR 2017 (2.00 P.M.);**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2017, gan eu bod yn gywir.**

**3.9. 18FED RHAGFYR 2017 (2.20 P.M.);**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2017, gan eu bod yn gywir.**

**3.10. 18FED RHAGFYR 2017 (2.40 P.M.);**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2017, gan eu bod yn gywir.**

## 4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 5. I YSTRIED APEL GAN YR YMGEISWYR LE, HE & ME YN ERBYN Y PENDERFYNIAD GAN SWYDDOGION I BEIDIO A DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL.

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol oedd yn ymwneud â'r ymgeisydd. Er y byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, am fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd a'i deulu/a'i theulu.

Croesawodd y Cadeirydd swyddogion o wasanaethau'r Gyfraith, yr Amgylchedd ac Addysg a Gwasanaethau Plant i'r cyfarfod.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried sylwadau ysgrifenedig yr apelydd mewn perthynas â phenderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod darparu cludiant am ddim i L.E., H.E. a M.E. i'r ysgol gan nad yr ysgol honno oedd yr un agosaf nac ychwaith ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, ac nad oedd felly'n cydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi'r Cyngor ar gyfer rhoi cymorth.

Ystyriodd y Panel sylwadau'r swyddogion adrannol, ynghyd ag amgylchiadau unigol yr achos. Hefyd gofynnodd y Panel am eglurhad ynghylch elfennau o Bolisi'r Awdurdod ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, argaeledd bws talu a theithio ac argaeledd cludiant cyhoeddus o gyfeiriad y cartref i'r ysgol ddewisedig.

**PENDERFYNWYD yn unol â Pholisi'r Awdurdod ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, wrthod yr apêl am nad oedd L.E., H.E. a M.E. yn mynychu'r ysgol agosaf nac ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, a hynny oherwydd dewis y rhieni.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**